

## ITHEL DDU (fl. c. 1300-40), bardd

**Enw:** Ithel Ddu  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd  
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Yn ôl pob tebyg brodor o Fôn. Dywed [lolo Goch](#) ei fod o wlad [Meilyr](#), er ei fod yn ei gysylltu hefyd â Ll n ac Ynys Enlli. Gelwir ef yn fardd enwog gan lolo, ond yr unig dystiolaeth sydd gennym yngl n â'r dyfarniad hwn yw un cywydd a ddigwydd mewn dwy lawysgrif, [Peniarth MS 77](#) (441) a [Peniarth MS 78](#) (135). Ymddengys nad bardd proffesyddol mohono, ond yn hytrach g r a honnai fod yn sgweiar, a garai hela a chwmliaeth (yn ôl lolo), ac a oedd, fel eraill o'i ddosbarth, yn noddwr beirdd. Ef (yn ôl lolo ei hun) a roddodd orchymyn i lolo Goch i gyfansoddi'r cywydd gogan ffaidd yn ymosod ar fam y bardd Gruffudd Gryg, a argraffwyd gan [Charles Ashton](#) yn ei argraffiad o waith lolo (rhif xl). Gweler ymhellach yr erthygl ar [Gruffudd](#). Ni ellir derbyn fel dystiolaeth hanesyddol y farwnad a ganodd lolo i Ithel yn tybio ei fod wedi marw ar ynys Enlli - wedi ei lofruddio - fel yr awgrymir, gan Gruffudd Gryg. Ymddengys yn sicr mai cellweirus yw'r darn hwn, fel y cywydd gogan a nodwyd uchod.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

Archifau LIGC: [Peniarth MS 77: Barddoniaeth Lewis Glyn Cothi](#) (441)

Archifau LIGC: [Peniarth MS 78: Barddoniaeth](#) (135)

H. Lewis, Thomas Roberts, Ifor Williams (goln), *Cywyddau lolo Goch ac Eraill, 1350-1450* (Bangor 1925), liv-lvi, 652  
*Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (1875)

J. Davies, *Antiquæ linguæ Britannicæ et linguæ Latinæ, dictionarium duplex* (1632)

Edward Jones, *Musical and poetical relicks of the Welsh bards* (London 1784)

'Gweirydd ap Rhys,' *Hanes Llenyddiaeth Gymreig, 1300-1650* (1885)

### Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Ithel Ddu](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q13129286](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.